**Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 19 Fehefin 2018 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Hefin Jones, Goronwy Hughes, Rhys Parry, Philip Roberts, Meirwen Lloyd.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Llywelyn Williams, Richard Robinson, Martin Jones, Cemlyn Jones, Beca Brown

**Aelod dros Gyngor Gwynedd:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

**Clerc:** Meirion Jones

**Hefyd yn bresennol cynrychiolwyr o wasanaeth ieuenctid Cyngor Gwynedd ar gyfer eitem 194 yn unig:** Nia Morris, Bryn Jones

**190. Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am droi fyny

**191. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**192. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**193. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mai 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Mai yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**194. I groesawu Nia Vaughan Morris, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod i dderbyn yr adroddiad ddiweddaraf ar sefyllfa clybiau ieuenctid yn gyffredinol a'r effaith ar Llanrug.**

Croesawyd Nia Vaughan Morris a Sion Bryn Jones i'r cyfarfod. Cafwyd amlinelliad o'r drefn newydd ar gyfer prynu fewn i'r gwasanaeth ieuenctid. Cafodd yr aelodau gyfle i holi cwestiynau i'r swyddogion am y broses a'r gwahanol oblygiadau.

Diolchwyd i'r swyddogion am droi fyny i'r cyfarfod ac am ddarparu'r wybodaeth

**195. I benderfynu yn dilyn y wybodaeth gan y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid y cam nesaf i Gyngor Cymuned Llanrug**

Cafwyd trafodaeth yn dilyn cyflwyniad gan Gyngor Gwynedd ac fe ystyriwyd sawl opsiwn. Y mater dan sylw heno oedd fod angen i'r Cyngor benderfynu os oeddynt am brynu fewn i gynllun newydd Cyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:**

a) Cytuno i brynu fewn i'r model newydd gan Gyngor Gwynedd;
b) Prynu fewn am un noson yr wythnos ar hyn o bryd;
c) Awdurdodi'r Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol gyda Cyngor Gwynedd;

**196. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o gofnodion Mai.**

**197. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden am gyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn 7 Mehefin 2018.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Meirwen Lloyd, yn absenoldeb y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi cyfarfod a trafodwyd nifer o eitemau;

a) Penderfynwyd cynnal diwrnod casglu ysbwriel ar 7fed o Orffennaf 2018 rheng 10:00 ac 13:00 gyda pawb i ymgynnull yn y Sefydliad Coffa, Llanrug;
b) Adroddwyd fod y Cyngor wedi rhoi cais i fewn yng nghystadleuaeth pentrefi taclus Sir Gaernarfon;
c) Adroddwyd fod cais i dorri gwair ger mynediad i ystadau wedi ei wneud i'r torrwr gwair

**198. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent am gyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd 13 Mehefin 2018**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd pwyllgor y fynwent eu bod wedi cyfarfod ac ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd:

a) Angen cynllunio ar gyfer y dyfodol fel mae'r fynwent yn llenwi;
b) Fod angen cario allan asesiad risg ar y fynwent yn gyffredinol ac hefyd ar y cerrig beddi;
c) Fod y llwybrau oddi fewn i'r fynwent yn anesmwyth ac yn ei gwneud yn anodd i wthio troli ar ei hyd mewn angladd;
d) Adroddwyd fod cais wedi dod i law gan deulu yn gofyn os buasai bosib cael caniatâd i roi mainc yn y fynwent er cof.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

Yn achos (b) adroddwyd fod asesiadau risg wedi ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor ac yn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor fod yr aelodau yn cyfarfod yn y fynwent i ystyried cario allan asesiad risg. Yn y cyfamser y clerc i ddrafftio ffurflen asesiad risg addas.

Yn achos (c) cytunwyd fod y llwybrau yn anesmwyth ac i'r Clerc geisio tri dyfynbris am wneud y gwaith

Yn achos (d) cytunwyd i gyfarfod a'r teulu yn y fynwent i drafod y mater.

**199. I dderbyn a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog ar gyfer 2018 / 2019** (copi eisoes wedi gylchredeg)

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog;

**200. I dderbyn a mabwysiadu'r Cod Ymddygiad ar gyfer 2018 / 2019** (copi eisoes wedi ei gylchredeg)

**Penderfynwyd:** Derbyn a mabwysiadu'r cod ymddygiad ar gyfer 2018

**201. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddwyd nad oedd y cynrychiolydd yn bresennol yn y cyfarfod

**202. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd nad oedd y cynrychiolydd yn bresennol

**203. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Cynllunio**

Mae Ymgynghoriad cyhoeddus o Bolisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cymeryd lle ar y funud. Dwi ddim yn siŵr o'r dyddiad cau. O bosib y byddech fel Cyngor Cymuned eisiau ymateb hefo sut ydych chi yn gweld rôl Cynghorau Cymuned parthed Cynllunio yn y dyfodol

**Arbedion**

Dim datblygiadau newydd yn cynlluniau arbedion. Dwi'n gadael yr penawd i mewn rhag ofn fel petai

**Gwasanaeth Ieuenctid**

Diweddariad yn y cyfarfod gan swyddogion Cyngor Gwynedd

**Cwmni Hamdden**

Pethau wedi symud ymlaen i sefydlu y Cwmni newydd, gyda'r gobaith y bydd y cwmni i fyny ac yn rhedeg tua diwedd y flwyddyn. Llawer o'r gwaith technegol, cyfreithiol ac yn y blaen. Bydd cyfarfodydd hefo staff yn digwydd er mwyn esbonio sut mae TUPE yn gweithio

**Cynllun Tŵf Gogledd Cymru**
3 brif ffrwd
Arloesedd i symud perfformiad economi yn ei flaen
Creu gwaith a codi sgiliau
Gwella cysylltiadau

Mae pecyn o 26 o Brosiectau unigol wedi'i adnabod i gyflawni'r Weledigaeth Twf. Dim i gyd wedi ariaanu o'r cynllun, ffynonellau eraill hefyd:-
Bryn Cegin, Bangor,
Menter ac Arloesi Gwledig Glynllifon

**Yn lleol**

**Llifogydd**
Falch o ddweud fod y cais grant a wnaed i Lywodraeth Cymru i wneud y gwaith yn Dol Afon, wedi bod yn llwyddiannus. Gyda'r gobaith rŵan fod y gwaith cynllunio manwl yn cychwyn a'r gwaith yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf. Hefyd mae pethau yn symud ymlaen hefo'r ymchwiliadau i'r llifogydd yn Stryd y Llyn, mae swyddogion y Cyngor yn trefnu cyfarfod hefo Cyfoeth Naturiol Cymru i weld beth allai ei wneud hefo'r outlet i'r afon yn pen y stryd iw wneud yn fwy effeithiol, hefyd maent wedi cytuno i wneud gwaith ar dop yr Allt Goch i geisio troi peth o'r dŵr i'r afon cyn iddo redeg lawr y ffordd.

**Adnewyddu y ffordd a'r palmant trwy Cwm y Glo**

Falch o gadarnhau fod y gwaith i gael ei wneud yn ystod gwyliau yr haf.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**204. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cynghorydd Charles Jones**

**Cais Cynllunio C18/0132/23/LL - 9 ty, Cae'r Eglwys, Llanrug.**

Yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio ohirio gwneud penderfyniad ar y cais nes bod ymweliad safle wedi cymryd lle ar 23 Gorffennaf. Ymysg y pethau fydd dan ystyriaeth fydd:

- Diogelwch parthed yr ysgol gynradd.
- Yr angen am lwybr troed i gysylltu Ffordd yr Orsaf a Ffordd Llanberis.

Hefyd, penderfynodd y pwyllgor y dylai'r Gwasanaeth Cynllunio ysgrifennu'n ffurfiol i asiant y datblygwr i ofyn am fwy o wybodaeth yn ymwneud a :-

- Cyfiawnhad pan fod y cais yn cyfeirio at 9 ty yn hytrach na 10 ty fel y'i cyfeirir ato yn y Cynllun Datblygu lleol.
- Angen cyfiawnhad am yr angen am 9 ty 3-llofft yn hytrach na chymysgedd o dai.
- Angen ail-wampio llecynnau parcio ar gyferr lleiniau 4A i 7A.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd wedi ail-ymgynghori gyda Uned Strategaeth Tai y Cyngor er mwyn derbyn gwybodaeth o faint sydd ar y rhestr tai yn Llanrug a sut fath o dai dymunant fyw ynddynt.

**CAE'R EGLWYS: Creu Maes Parcio rhwng Corlan y Rhos a'r Feddygfa ar Ffordd yr Orsaf (Cais Cynllunio C18/0132/23/LL).**

Dyma ateb Adran Trafnidiaeth, i fy nghais iddo ynglŷn a'r posibilrwydd o'r uchod:

Annwyl Charles

Cyfeiriaf at eich ymholiad dyddiedig 24 Ebrill 2018 ynghylch y posibilrwydd o greu maes parcio ar plot 7a, Cae'r Eglwys. Mae'n ddrwg gennyf fod yn hwyr yn eich ateb.

Rwyf wedi trafod y mater gyda Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr Eiddo ac wedi gofyn i'r Uned Traffig edrych i mewn i ba mor ymarferol fyddai creu llecynnau parcio ar y tir yma.

Byddai'n bosib lleoli hyd at 8 llecyn parcio 'echelon' gyda man troi ar plot 7a a fyddai'n cydymffurfio a'r safonau cyfredol. Fodd bynnag, fyddai angen creu mynediad newydd i mewn i'r safle o'r lay-by sydd ar Ffordd yr Orsaf. Fyddai hyn yn golygu cymryd 2 le parcio oddi ar y lay-by. Felly, fyddai'r cynllun yma yn darparu cynnydd net o 6 lle parcio yn unig i'r gymuned. Fyddai modd darparu rhagor o lecynnau parcio ar y safle ond fyddai hyn yn golygu defnyddio tir y feddygfa. Petai'r tir yma ar gael, fyddai'n bosib creu hyd at 18 o lecynnau parcio gyda digon

o le i droi cerbydau o fewn y safle. Fodd bynnag, fyddai angen lledu mynedfa safle'r feddygfa rhyw fymryn i ganiatáu dau gerbyd i basio trwy'r adwy, ac yn ddelfrydol, byddai angen gwahardd parcio am hyd bŷr yn y lay-by. Fyddai hyn yn golygu colled o leiaf 3 lle parcio ar y stryd a fyddai'n rhoi cynnydd net o thua 15 o lecynnau parcio i'r gymuned.

Wrth gwrs, fyddai'r cynlluniau uchod yn dibynnu'n llwyr ar a fyddai'r tirfeddianwyr yn gwerthu'r tir a hefyd, darganfod yr arian i brynu'r tir, adeiladu'r maes parcio a'i gynnal wedyn.

Rwy'n wirioneddol gwerthfawrogi eich awydd i geisio datblygu rhywbeth ar y safle er budd y gymuned. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi gyfaddef nad yw'r Gwasanaeth yn ystyried fod cyfiawnhad ar sail diogelwch neu gyfleustra yn bresennol i flaenoriaethu gwario ar adeiladu maes parcio ar y safle yma. Hyd yn oed os oedd yn flaenoriaeth, rwy'n credu y byddai'n anodd iawn darganfod yr arian i alluogi ei ddatblygu o ystyried ein bod yn wynebu mwy o doriadau i'n cyllidebau. O ganlyniad, mae'n ddrwg gennyf gadarnhau na fyddai'r Gwasanaeth yn gallu cefnogi'r cynnig i adeiladu maes parcio yma ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**205. I dderbyn diweddariad adroddiad a / neu sylwadau ac i benderfynu ffordd ymlaen ag elusen 'Llanrug Poor House' (Cyng Goronwy Hughes)**

Adroddwyd y gwaith i gau'r elusen yn parhau

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**206. I dderbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol.**

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**207. I gymeradwyo rhybudd preifatrwydd y Cyngor ar gyfer aelodau o'r cyhoedd**

**Penderfynwyd:**

a) Cymeradwyo'r Rhybudd Preifatrwydd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd.
b) Y Clerc i'w roi ar ein gwefan

**208. I gymeradwyo rhybudd preifatrwydd y Cyngor ar gyfer staff ac aelodau'r Cyngor.**

**Penderfynwyd:**

a) Cymeradwyo'r Rhybudd Preifatrwydd ar gyfer staff ac aelodau'r cyngor.
b) Y Clerc i'w roi ar ein gwefan

**209. I gymeradwyo'r Archwiliad Data**

Penderfynwyd:

a) Cymeradwyo'r Archwiliad Data
b) Y Clerc i'w gyhoeddi ar ein gwefan

**210. I ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol:-**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0451/23/AC

**Lleoliad y Safle:** Plot 1 Former Hafod Garage Site, Llanrug, Caernarfon, LL554AN

**Dyddiad Cofrestru:** 24-Mai-2018

**Math o Gais:** Rhyddhau Amodau

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Rhyddhau amod 4 o ganiatâd cynllunio rhif C16/1671/23/LL parthed cyflwyno tystiolaeth o risgiau llygredd tir

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0452/23/AC

**Lleoliad y Safle:** Plot 8 Former Hafod Garage Site, Llanrug, Caernarfon, LL554AN

**Dyddiad Cofrestru:** 24-Mai-2018

**Math o Gais:** Rhyddhau Amodau

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Rhyddhau amod rhif 6 o ganiatâd cynllunio rhif C16/0949/23/LL parthed cyflwyno tystiolaeth o risgiau llygredd tir

**Statws:** Holl Ymgynghoriadau drosodd

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0453/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Plot 6 Former Hafod Garage Site, Llanrug, Caernarfon, LL554AN

**Dyddiad Cofrestru:** 29-Mai-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Diwygio amod rhif 9 o ganiatâd cynllunio rhif C15/0990/23/LL parthed cyflwyno tystiolaeth o risgiau llygredd tir

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

d) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0456/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Arete Outdoor Centre, Bryn Yr Eryr, Llanrug, Caernarfon, LL554AP

**Dyddiad Cofrestru:** 25-Mai-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Codi estyniad i uned preswyl yn cynnwys ystafell aml-bwrpas ac ystafell wydr

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

e) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0475/23/LL

**Lleoliad y Safle:** 3 Bryn Coch Terrace, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554AN

**Dyddiad Cofrestru:** 12-Meh-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniad cefn

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 21:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 17 o Orffennaf 2018